



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru): Arolwg Sylfaenol o Staff GIG Cymru

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 68/2014

Ar 1af Rhagfyr 2015, bydd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) yn dod i rym yn llawn, gan gyflwyno system feddal o optio allan mewn perthynas â chydsynio i roi organau a meinweoedd.

Yn sgil y newid hwn i'r system rhoi organau a meinwe, cafodd GfK NOP ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal rhaglen ymchwil gyda'r nod o archwilio a meincnodi agweddau staff y GIG yng Nghymru at y newid yn y system cydsynio i roi organau.

Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru am wneud y canlynol:

- Deall agweddau, disgwyliadau a lefelau gwybodaeth am y system newydd
- Nodi aelodau o staff y gall y system newydd effeithio ar eu gwaith
- Mesur newidiadau dros amser, ym marn staff y GIG, a'r effaith ddisgwyliedig ar eu gwaith
- Nodi newidiadau i arferion gwaith yn sgil gweithredu'r Bil
- Nodi unrhyw faterion annisgwyl sy'n dod yn sgil y system feddal o optio allan

Mae'r astudiaeth hon yn ategu gwaith ymchwil arall a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru â Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol ym maes rhoi organau.

Cynhaliwyd gwaith maes drwy Gyfweiliadau dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur (CATI) rhwng 4ydd Rhagfyr 2013 a 31ain Ionawr 2014, gan ddefnyddio holiadur a gynlluniwyd gan GfK NOP mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Cynhaliwyd y cyfweiliadau o ganolfan cyfweiliadau dros y ffôn GfK NOP. Mae'r cwmni yn aelod o'r Cynllun Rheoli Ansawdd Cyfwelwyr (IQCS) a chafodd pob cyfwelydd ei hyfforddi'n llawn a'i fonitro.

Roedd llythyr gan Lywodraeth Cymru ar gael i'w e-bostio at ymatebwyr a oedd angen tawelwch meddwl pellach cyn cwblhau'r cyfweiliad.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â staff y GIG yn eu manau gwaith, a darparwyd rhestrau cyswllt gan Binleys, sef darparwr arbenigol o restrau o staff a sefydliadau'r GIG.

Pwysolwyd data ar y cam dadansoddi er mwyn sicrhau bod canfyddiadau yn cynrychioli holl staff y GIG o fewn y galwedigaethau a nodir yn yr arolwg. Ailgydbwysodd y pwysoliadau orgynrychiolaeth fwriadol rhai galwedigaethau yn y sampl a sicrhau bod rhanbarthau Bwrdd Iechyd yn unol â'r proffil cenedlaethol.

Crynodeb

Ar y cyfan, roedd staff yn cefnogi'r newid i'r system rhoi organau ond prin roedd ganddynt wybodaeth fanwl am y newidiadau. Roedd cefnogaeth i'r newid mewn deddfwriaeth yn gysylltiedig â'r ymwybyddiaeth ohono; roedd y rhai nad oeddent yn ymwybodol o'r newid i'r system rhoi organau yn llawer llai tebygol o fod o blaid y ddeddfwriaeth newydd.

Ymwybyddiaeth a chefnogaeth

Yn gadarnhaol, roedd y rhan fwyaf o staff yn ymwybodol o'r newid i'r system cydsynio i roi organau. Roedd tri chwarter (76%) y staff yn ymwybodol o'r newid i'r system cydsynio i roi organau, cyn eu procio. Roedd bron pob arweinydd clinigol yn ymwybodol o'r newid, cyn eu procio, ac roedd ymwybyddiaeth yn uchel (84%) ymhlith nyrsys arbenigol mewn Unedau Triniaeth Ddwys ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Meddygon ysbyty (65%) a nyrsys ysbyty (70%), nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau triniaeth ddwys, oedd y

grwpiau galwedigaeth a oedd leiaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid i'r system, cyn eu procio. Roedd y fath ymwybyddiaeth gymharol isel i'w gweld yn arbennig ymhlith meddygon ysbyty iau a nyrsys ward cyffredinol (59% ar gyfer y ddau grŵp).

Ar y cyfan, cynyddodd ymwybyddiaeth i bron naw o bob deg (89%) ar ôl i esboniad o'r newidiadau gael ei roi i staff. Unwaith eto, meddygon ysbyty a nyrsys ysbyty nad oeddent yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau triniaeth ddwys (79% ac 86% yn y drefn honno) oedd yr alwedigaeth a oedd leiaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid i'r system cydsynio i roi organau ond roedd pedwar o bob pump o'r grwpiau hyn yn dal yn ymwybodol ar ôl eu procio.

Roedd tua saith o bob deg (71%) o staff o blaid y deddfwriaeth ond dywedodd un o bob pump (22%) fod angen rhagor o wybodaeth arnynt. Dim ond 6% oedd yn erbyn y newid i'r system. Roedd ymwybyddiaeth o'r newidiadau yn ffactor o blaid y newid mewn

deddfwriaeth, nad yw'n hollol annisgwyl, roedd yr aelodau o staff hynny nad oeddent yn ymwybodol o'r newid i'r system, cyn y cyfweliad, yn llai tebygol o fod o blaid y newid mewn deddfwriaeth (42% o gymharu â 75% yn ymwybodol o'r newid). Arweinwyr clinigol (89%) oedd y grŵp o staff â'r gyfran uchaf o bobl o blaid y newid mewn deddfwriaeth.

Gofynnwyd i staff am yr hyn roeddent yn bwriadu ei wneud yn bersonol o ran rhoi organau a'r newid i'r system cydsynio. Dim ond 6% a ddywedodd y byddent yn cofrestru i beidio â bod yn rhoddwyr h.y. byddant yn optio allan, a dywedodd yr un gyfran nad oeddent yn gwybod beth fyddent yn ei wneud eto.

Gwybodaeth am newid i'r system rhoi organau

Er bod y rhan fwyaf o staff yn ymwybodol o'r newid mewn deddfwriaeth ac o'i blaid, roedd llai ohonynt yn credu eu bod yn ddigon gwybodus eto am y newidiadau, gyda dim ond 3% yn dweud eu bod yn gwybod llawer iawn am y newidiadau. Ar y cyfan, dywedodd

dros hanner (57%) ohonynt eu bod yn gwybod swm gweddol o leiaf am y newid i'r system rhoi organau ac roedd bron ddau o bob tri (64%) yn deall y byddai'r system yn newid o fod yn system 'optio i mewn' i system 'optio allan'. Nyrsys arbenigol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac unedau triniaeth ddwys (67%) ac arweinwyr clinigol (68%) oedd â'r cyfrannau uchaf o staff a oedd yn gwybod swm gweddol o leiaf am y newidiadau.

Roedd agweddau at y newid yn y system rhoi organau yn gadarnhaol yn gyffredinol gyda mwy na phedwar o bob pump yn cytuno y bydd y system 'feddal o optio allan' yng Nghymru yn achub mwy o fywydau (80%) a bod y system 'feddal o optio allan' yn dal i gynnig y rhyddid i ddewis oherwydd gall unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt am wneud hynny (86%). Fodd bynnag, dylid nodi mai meddygon ysbyty sy'n gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau triniaeth ddwys oedd â'r gyfran isaf o staff a oedd yn cytuno y bydd y system 'feddal o optio allan' yng Nghymru yn achub mwy o fywydau (66% o

gymharu ag 80% ymhlith grwpiau staff eraill).

Roedd lefel gwybodaeth staff ynghylch rôl y teulu yn amrywio. Nid oedd y rhan fwyaf o staff (92%) yn meddwl ei bod yn wir na fyddai gan y teulu unrhyw rôl i'w chwarae yn y broses rhoi organau ond roedd bron hanner (47%) yn meddwl yn anghywir ei bod yn wir y gall y teulu ddiystyru dymuniadau'r sawl a fu farw. Roedd meddygon ysbyty yn fwy tebygol na staff eraill o fod yn ymwybodol na all y teulu ddiystyru dymuniadau'r sawl a fu farw, gyda chwech o bob deg (61%) yn dweud nad oedd y datganiad yn wir o gymharu â dau o bob pump (43%) o grwpiau staff eraill.

Dyweddodd tri chwarter y staff yn gywir ei bod yn wir na fydd clinigwyr yn bwrw ymlaen (74%) os bydd y teulu mewn trallod dros y penderfyniad i roi organau a'i fod yn gallu rhoi tystiolaeth i ddangos nad oedd y sawl a fu farw o blaid rhoi organau (76%). Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod meddygon ysbyty nad ydynt yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys nac unedau triniaeth ddwys yn fwy tebygol o anghytuno na fydd

clinigwyr yn bwrw ymlaen os bydd y teulu mewn trallod dros y penderfyniad i roi organau (30% o gymharu â 14% o'r holl grwpiau staff eraill).

Ateb y cwestiynau

Dyweddodd ymhell dros hanner (62%) y staff y byddant yn hyderus i ateb cwestiynau'r cyhoedd a chleifion am y newid i'r system cydsynio i roi organau. Roedd gwybodaeth yn cynyddu hyder, gyda phedwar o bob pump o'r sawl a ddywedodd eu bod yn gwybod swm gweddol o leiaf am y newid i'r system cydsynio i roi organau yn dweud eu bod yn hyderus yn ateb cwestiynau (84% o gymharu â 49% nad oeddent yn gwybod llawer amdano neu dim byd o gwbl).

Pe bai rhywun yn gofyn cwestiynau am y broses rhoi organau, byddai dros hanner y staff yn cysylltu ag aelod o'r tîm/staff rhoi organau (54%) ac roedd hyn yn cynyddu i fwy na phedwar o bob pump o staff a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau triniaeth ddwys, 81%; nyrsys arbenigol mewn adrannau

damweiniau ac achosion brys neu unedau triniaeth ddwys, 83%).

Yr effaith ar swyddi

Roedd llai na hanner (41%) o staff o'r farn y byddai'r newid i'r system rhoi organau yn effeithio ar eu swydd. Roedd y rhai a oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau triniaeth ddwys (meddygon, 67%; nyrsys arbenigol 66%) yn fwy tebygol o nodi y byddai eu swyddi yn cael eu heffeithio o gymharu â galwedigaethau eraill. Dywedodd staff a oedd o'r farn y byddai'r newid i'r system cydsynio i roi organau yn effeithio ar eu swyddi mai'r brif effaith ar eu swyddi fyddai treulio mwy o amser yn ateb cwestiynau (45%), yn enwedig gan gleifion (28%) a theuluoedd cleifion (38%).

Hysbysebu neu sylw yn y cyfryngau

Roedd chwarter (26%) y staff wedi gweld hysbysebion neu sylw yn y cyfryngau yn sôn am y newid i'r system cydsynio i roi organau yn ystod yr ychydig wythnosau

diwethaf, a'r teledu (59%) oedd y cyfrwng a grybwyllwyd amlaf. Ni wnaeth ymwybyddiaeth o'r hysbysebion neu'r sylw yn y cyfryngau am y newid i'r system cydsynio i roi organau effeithio ar agweddau na gwybodaeth am y newid i'r system.

Cyfathrebu yn y dyfodol

Roedd y tri dull mwyaf poblogaidd o gyfathrebu yn y dyfodol ynghylch y newid yn y system rhoi organau yn rhai ysgrifenedig h.y. bwletinau e-bost neu gylchlythyrau (88%), taflenni/pamffledi (78%) a gwefannau (73%). Fodd bynnag, soniodd tua dwy ran o dair o staff am ddulliau cyfathrebu personol - sef cyfarfodydd staff mewnol (68%) a chael gwybod gan reolwyr yn y sefydliad (68%).

Monitro

Disgwylir i'r arolwg hwn gael ei gynnal eto yn 2016 er mwyn asesu unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ar ôl rhoi'r system feddal o optio allan ar waith. Bydd yn bwysig, ar y cam hwn, i fonitro nifer o faterion allweddol gwn gynnwys:

- ymwybyddiaeth staff bod y Ddeddf wedi dod i rym
- a yw cyfran uwch o staff o'r farn bod ganddynt swm gweddol o wybodaeth o leiaf am y newidiadau a wnaed i'r system cydsynio i roi organau
- a yw staff yn fwy hyderus ynghylch lefel eu gwybodaeth am rôl y teulu
- a yw'r gyfran o staff sy'n gwybod â phwy i gysylltu os bydd aelod o'r cyhoedd, neu glaf, am drafod rhoi organau wedi codi?
- pryderon y sawl sy'n llai cadarnhaol am y newid i'r system cydsynio i roi organau
- yr effaith ar swyddi ac a oedd hyn yn ôl y disgwyl.

GfK NOP

ISBN 978 1 4734 1483 9

7 Gorffennaf 2014